

Adroddiad Arolygu o Bractis Meddygon Teulu (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Meddygfa Coach and Horses, Bwrdd
Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Dyddiad yr arolygiad: 3 Hydref 2024

Dyddiad cyhoeddi: 2 Ionawr 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](http://www.agic.org.uk) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	16
4.	Y camau nesaf	19
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	20
	Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith.....	21
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	22

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Feddygfa Coach and Horses, sydd wedi'i lleoli ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 3 Hydref 2024.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd cymheiriaid rheolwyr practis.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o 10 holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd 8 gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gawsom yn ymddangos yn yr adroddiad, lle y bo'n briodol, oherwydd y gyfradd ymateb isel.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom ryngweithio cyfeillgar a chwrtais rhwng y staff a'r cleifion. Roedd pob un o'r cleifion yn teimlo eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch a bod y clinigydd yn esbonio pethau'n dda.

Roedd drysau pob ystafell ymgynghori ac ardal glinigol yn cael eu cau er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion yn ystod ymgynghoriadau. At hynny, roedd ystafell ar gael wrth ymyl y dderbynfa i gynnal sgysiau preifat â chleifion yn ôl yr angen.

Roedd arwyddion a gwybodaeth i gleifion ar gael yn ddwyieithog hefyd, ac roedd rhai o'r staff yn siarad Cymraeg. Roedd gwasanaeth cyfieithu hefyd ar gael i gyfathrebu â'r cleifion mewn ieithoedd eraill yn ôl yr angen.

Roedd amrywiaeth o gyngor hybu iechyd ar gael i'r cleifion ym mhob rhan o'r practis, fel cyngor ar fyw yn iach, ymgyrchoedd sgrinio a hysbysfwrdd gwybodaeth i ofalwyr a chyfeiriadau at wasanaethau iechyd meddwl. Roedd y practis yn cynnal amrywiaeth o glinigau rheoli cyflyrau cronig a gwasanaethau ychwanegol.

Roedd y cleifion yn cael gwybod ar lafar a thrwy bosteri, a oedd wedi cael eu gosod mewn lleoliadau effeithiol, bod croeso iddynt gael hebryngwr yn bresennol yn ystod eu hymgyngoriad.

Gall y cleifion drefnu apwyntiadau cyffredin drwy ap GIG Cymru a thros y ffôn. Caiff apwyntiadau brys eu cynnig dros y ffôn ar yr un diwrnod, ac mae amser dynodedig yn cael ei neilltuo i'r meddygon teulu bob dydd i edrych ar ymholiadau brys a chwblhau ymweliadau cartref. Cafwyd rhywfaint o adborth gan y cleifion mewn perthynas â'r prosesau ar gyfer trefnu apwyntiadau, a dylai'r practis fyfyrar ar yr adborth hwn er mwyn deall a oes gan y cleifion bryderon ehangach.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r practis sicrhau y caiff cydsyniad ar lafar i archwiliadau personol a'r cynnig o hebryngwr bob amser eu cofnodi yn nodiadau meddygol y cleifion
- Dylai'r practis fyfyrar ar yr adborth a ddarparwyd gan y cleifion mewn perthynas â'r prosesau ar gyfer trefnu apwyntiadau
- Dylai'r practis sicrhau y caiff anghenion iaith a chyfathrebu eu cofnodi yng nghofnodion meddygol y cleifion fel mater o drefn.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd amrywiaeth o gyngor hybu iechyd wedi'i arddangos ym mhob rhan o'r practis
- Gwelsom ryngweithio cyfeillgar a gofalgwr rhwng y staff a'r cleifion bob amser

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd amgylchedd y practis mewn cyflwr da ac yn hygyrch ym mhob ardal i gleifion, heblaw am rai ardaloedd bach a nodwyd fel meysydd i'w gwella. Roedd pob rhan o'r practis hefyd yn ymddangos yn lân ac yn dactylus.

Roedd y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant Atal a Rheoli Heintiau a oedd yn briodol i'w rolau, ac roedd y cyfrifoldebau o ran atal a rheoli heintiau yn cael eu rhannu rhwng timau'r practis. Roedd polisi Atal a Rheoli Heintiau ar waith a oedd wedi cael ei adolygu'n ddiweddar. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth bod archwiliad atal a rheoli heintiau wedi cael ei gynnal o fewn y 12 mis diwethaf ac mae rhaid mynd i'r afael â hyn.

Roedd prosesau addas ar waith i ddelio ag argyfyngau mewn perthynas â'r cleifion, wedi'u hategu gan gyflenwad o gyffuriau a chyfarpar brys, gan gynnwys ocsigen, ac roedd y staff yn gwybod sut i gael gafael ar y cyfarpar hwn.

Ar y cyfan, gwelsom fod prosesau boddhaol ar waith er mwyn helpu i ddarparu triniaethau a gofal effeithiol i'r cleifion. Roedd hyn yn cynnwys prosesau i rannu diweddariadau clinigol, gwersi i'w dysgu, a chanllawiau newydd. Roedd y prosesau hyn wedi'u hategu gan fentrau gwella ansawdd, cyfarfodydd amlddisgyblaethol a threfniadau gweithio clwstwr. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nifer bach o feysydd i'w cryfhau mewn perthynas â'r arferion ar gyfer cadw cofnodion clinigol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r practis sicrhau bod archwiliadau atal a rheoli heintiau yn cael eu cynnal bob blwyddyn.
- Dylai'r practis gynnal archwiliad cadw cofnodion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd amgylchedd y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ym mhob ardal a oedd yn cael ei defnyddio gan staff a chleifion.
- Roedd y practis yn ymddangos yn lân ac yn dactylus
- Roedd y staff yn glir o ran eu rolau a'u dyletswyddau clinigol

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd strwythur rheoli ac arwain clir ar waith ac roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau. Roedd yn ymddangos bod aelodau tîm y practis yn gweithio mewn modd cydlynol ac roeddent yn canmol y dull drws agored a oedd ar waith ymhlith eu cydweithwyr.

Roedd y staff yn fodlon ar ansawdd y gofal roeddent yn ei ddarparu i'r cleifion, ac roedd pob un ohonynt yn cytuno mai gofalu am y cleifion oedd prif flaenoriaeth y practis ac y byddent yn fodlon ar safon y gofal a ddarperir pe bai hynny i'w ffrindiau neu eu teulu.

Roedd tystiolaeth i ddangos bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant, a oedd yn cael ei ategu gan brosesau sefydlu ac arfarniadau blynyddol.

Roedd prosesau gwella ansawdd ar waith, a gwelwyd enghraifft o ymateb i adborth gan gleifion a dysgu ohono. Roedd yn gadarnhaol gweld enghreifftiau o raglenni gwella eraill, a oedd yn cynnwys y wobr efydd am ymrwymiad y practis i gefnogi gofalwyr yn y gymuned.

Gwelwyd tystiolaeth o drefniadau gweithio mewn partneriaeth drwy gyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol a'r cyfarfodydd clwstwr rheolaidd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd strwythur rheoli ac arwain clir ar waith ac roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau
- Roedd yn ymddangos bod tîm y practis yn gweithio mewn modd cydlynol, a bod polisi drws agored ar waith
- Roedd y prosesau ar gyfer rhoi adborth, dysgu gwersi ac ymgysylltu o safon dda.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Cawsom 10 holiadur cleifion wedi'u cwblhau. Dywedodd pob un ond dau o'r cleifion fod y gwasanaeth roeddent yn ei gael gan y practis yn dda iawn neu'n dda. Roedd pob un o'r cleifion yn teimlo eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch a bod y clinigydd yn esbonio pethau'n dda. Rhoddwyd adborth llai cadarnhaol mewn perthynas â'r prosesau ar gyfer trefnu apwyntiadau. Caiff manylion pellach eu nodi yn yr adran gofal amserol isod.

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd

Roedd amrywiaeth o gyngor hybu iechyd wedi'i arddangos ym mhob rhan o'r practis. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am anhwylderau cyffredin, ymgyrchoedd sgrinio, iechyd meddwl, dementia, a chymorth i ofalwyr a chyn-aelodau o'r lluoedd arfog. Roedd y wybodaeth yn gyfredol ac o ansawdd da.

Roedd y practis yn cynnal amrywiaeth o glinigau rheoli cyflyrau cronig a gwasanaethau ychwanegol. Roedd y rhain yn cynnwys clinigau asthma, diabetes, cardioleg, profion ceg y groth, dulliau atal cenhedlu a chlinigau cynenedigol. Roedd y gwasanaethau hyn yn cael eu darparu gan feddygon teulu, dwy nyrs practis, a chynorthwydd gofal iechyd. Roedd nyrsys ardal ac ymwelwyr iechyd wedi eu cydleoli yn y practis hefyd.

Roedd y practis yn hygyrch i bawb, gyda lleoedd parcio dynodedig ar gyfer pobl anabl a mynediad gwastad i'r practis o'r maes parcio. Roedd pob un o'r meddygfeydd wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod a dywedodd y staff wrthym y byddent yn helpu cleifion ag anghenion symudedd yn ôl yr angen. Roedd ramp ar gael i'w ddefnyddio mewn argyfwng y tu ôl i'r practis.

Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom rymgweithio cyfeillgar a gofalgarg rhwng y staff a'r cleifion bob amser.

Roedd yr ardal aros yn sicrhau y gallai staff y dderbynfa a'r cleifion gael sgysiau preifat ar y cyfan. Gellid hefyd defnyddio ystafell ochr breifat wrth ymyl y dderbynfa fel y bo'n briodol. Roedd galwadau ffôn ar gyfer apwyntiadau a

threfniadau brysbennu yn cael eu hateb mewn swyddfa breifat i ffwrdd o'r ardaloedd cyhoeddus.

Wrth i ni gael ein tywys o amgylch y practis, gwelsom fod drysau'r meddygfeydd a'r clinigau bob amser ar gau pan oedd ymgynghoriadau yn cael eu cynnal a thriniaethau yn cael eu rhoi.

Roedd y cleifion yn cael gwybod ar lafar a thrwy bosteri, a oedd wedi cael eu gosod mewn lleoliadau effeithiol, bod croeso iddynt gael hebryngwr yn bresennol yn ystod eu hymgyngoriad. Gwnaethom gadarnhau bod y staff wedi cael hyfforddiant ar sut i hebrwng cleifion yn briodol a bod staff gwrywaidd a benywaidd ar gael. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd cydsyniad ar lafar a'r cynnig o hebryngwr bob amser yn cael eu cofnodi yng nghofnodion meddygol y cleifion.

Rhaid i'r practis sicrhau y caiff cydsyniad ar lafar i archwiliadau personol a'r cynnig o hebryngwr bob amser eu cofnodi yng nghofnodion meddygol y cleifion yn unol â chanllawiau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol.

Amserol

Gofal amserol

Gall y cleifion drefnu apwyntiadau cyffredin drwy ap GIG Cymru a thros y ffôn. Caiff apwyntiadau brys eu cynnig dros y ffôn ar yr un diwrnod, ac mae amser dynodedig yn cael ei neilltuo i'r meddygon teulu bob dydd i edrych ar ymholiadau brys a chwblhau ymweliadau cartref.

Er mwyn helpu i sicrhau bod y cleifion yn cael y gwasanaeth cywir i ddiwallu eu hanghenion, byddai'r staff yn cyfeirio eu gofal at yr aelod priodol o dîm y practis. At hynny, cadarnhaodd y staff y caiff cleifion eu hysbysu y dylent ffonio 999 pan fydd ganddynt symptomau brys, fel trawiad ar y galon, strôc neu waedu trwm.

Nododd pum claf yn ein harolwg nad oeddent yn gallu trefnu apwyntiadau cyffredin pan oedd eu hangen arnynt, a mynegodd yr un nifer o gleifion nad oeddent yn gallu cael apwyntiad brys pan oedd angen un arnynt. Ymhlith y sylwadau roedd y canlynol:

"Byddai'n well o lawer gen i allu trefnu apwyntiad cyffredin ymlaen llaw a chael ymgynghoriadau dros y ffôn os mai dyna yw'r opsiwn gorau"

"Gall gymryd wythnosau i drefnu apwyntiad. Gofynnodd yr ysbyty i mi drefnu apwyntiad er mwyn cael ECG... cefais apwyntiad ymhen chwe diwrnod. Dywedais fod yr ysbyty am i mi ei gael cyn gynted â phosibl a

dywedodd y derbynnydd y dylwn fynd i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys felly. Doeddwn i ddim mewn unrhyw gyflwr corfforol i allu gwneud hynny”

“Dywedwyd wrthyf am ffonio'n ôl yfory”

Er mai nifer cyffredinol fach o unigolion a ymatebodd i'r arolwg, dylai'r practis fyfyrrio ar yr adborth hwn fel arwydd posibl o safbwyntiau ehangach.

Gwnaethom gadarnhau bod staff y dderbynfa wedi cael hyfforddiant ar lywio gofal a'u bod yn rhoi proses brysbennu ar waith dros y ffôn i sicrhau bod y cleifion yn cael eu hatgyfeirio at y gweithiwr proffesiynol mwyaf priodol i ddiwallu eu hanghenion. Roedd gwasanaethau 111 a 111 Pwyswch 2 y GIG yn cael eu hysbysebu ar-lein gan y practis ac yn y practis ei hun fel ffynhonnell gymorth bellach.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Roedd arwyddion a gwybodaeth i gleifion ar gael yn ddwyieithog. Roedd nifer o siaradwyr Cymraeg yn y practis, a gwelwyd fod y bathodyn a'r logo iaith Gwaith yn cael eu defnyddio i hyrwyddo'r defnydd o'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg.

Dywedodd y staff wrthym y byddent yn diwallu unrhyw anghenion iaith neu gyfathrebu hysbys a'u bod yn gyfarwydd â gwasanaethau fel Language Line i'w helpu i gyfieithu. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd anghenion iaith a chyfathrebu'r cleifion yn cael eu cofnodi yn eu cofnodion meddygol fel mater o drefn.

Dylai'r practis sicrhau y caiff anghenion iaith a chyfathrebu eu cofnodi yng nghofnodion meddygol y cleifion fel mater o drefn er mwyn sicrhau bod anghenion yn cael eu diwallu mewn modd ymatebol, gan ddefnyddio Language Line pan fo angen.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Roedd amgylchedd y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ym mhob ardal a oedd yn cael ei defnyddio gan staff a chleifion. Roedd yn hygyrch ac yn wastad, heb unrhyw stepiau, ac roedd ramp ar gael y tu ôl i'r practis i'w ddefnyddio mewn argyfwng. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd y gloch alw i'w defnyddio mewn argyfwng yn gweithio ym mhob ystafell ymgynghori. Er mwyn sicrhau diogelwch y staff, rydym yn argymhell y dylid trwsio'r clychau galw hyn cyn gynted â phosibl.

Rhaid i'r practis sicrhau bod y clychau galw i'w defnyddio mewn argyfwng yn gweithio ym mhob ystafell ymgynghori.

Roedd cyfarpar canfod tân, diffoddwyr tân wedi'u gwasanaethu, arwyddion a goleuadau ar waith yn y practis. Fodd bynnag, gwnaethom hysbysu'r practis na ddylai'r biniau gwastraff gael eu storio'n uniongyrchol yn erbyn yr adeilad.

Gwelsom fod profion offer cludadwy yn cael eu cynnal ar eitemau trydanol yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau'n ddiogel ac yn effeithiol.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd pob rhan o'r practis yn ymddangos yn lân ac yn daclus.

Roedd prosesau priodol ar waith i sicrhau bod pob ardal o'r practis yn cael ei glanhau i safon briodol. Roedd hyn yn cynnwys amserlenni glanhau ar gyfer ardaloedd clinigol allweddol, fel yr ystafelloedd trin. Roedd y ffaith bod yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda yn golygu bod modd rhoi trefniadau atal a rheoli heintiau effeithiol ar waith, gan gynnwys cyfleusterau golchi dwylo o safon uchel ym mhob ardal.

Roedd y staff wedi cael hyfforddiant atal a rheoli heintiau priodol ar gyfer eu rolau, ac roedd y cyfrifoldebau o ran atal a rheoli heintiau yn cael eu rhannu rhwng timau'r practis.

Roedd polisi Atal a Rheoli Heintiau ar waith a oedd wedi cael ei adolygu'n ddiweddar. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth bod archwiliad atal a rheoli heintiau wedi cael ei gwblhau o fewn y 12 mis diwethaf. Rydym yn argymhell y dylid cwblhau'r archwiliad hwn i sicrhau y caiff materion sy'n peri pryder mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau eu nodi a'u goruchwyllo ym mhob rhan o'r practis.

Rhaid i'r practis sicrhau bod archwiliadau atal a rheoli heintiau yn cael eu cynnal bob blwyddyn, gan lunio cynllun gweithredu er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodwyd.

Roedd contractau perthnasol ar waith ar gyfer gwaredu gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus. Roedd gwastraff yn cael ei wahanu a'i storio mewn biniau diogel y tu ôl i'r practis.

Roedd y staff yn ymwybodol o'r broses i'w dilyn pe bai ganddynt anaf a achoswyd gan nodwydd. Roedd gwasanaethau iechyd galwedigaethol ar gael i'r practis drwy'r Bwrdd Iechyd Lleol, gan gynnwys cyfleoedd i gael brechiadau Hepatitis B. Roedd cofnodion ar gyfer y drefn hon yn cael eu cynnal yn briodol.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd cyflenwad digonol o gyffuriau a chyfarpar brys, gan gynnwys ocsigen, ar gael yn y practis. Roedd hyn yn cynnwys diffibriliwr, a oedd wedi cael ei wefru a'i osod mewn lleoliad hygrych, ac a oedd yn cael ei wirio'n rheolaidd. Pan ofynnwyd i'r staff, roeddent yn gwybod sut i gael gafeael ar y cyfarpar hwn. Roedd yr holl eitemau yn gyfredol ac roedd gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal gan y staff nysio er mwyn sicrhau eu bod ar gael o hyd a'u bod yn effeithiol. Fodd bynnag, rydym yn argymhell y dylid cadw cofnodlyfr wedi'i argraffu o'r dyddiadau y daw cyffuriau a chyfarpar brys i ben er mwyn gallu cynnal y gwiriadau hyn yn hwylus a sicrhau eu bod yn gywir o hyd.

Roedd prosesau priodol ar waith ar gyfer rheoli brechlynnau ac imiwneiddiadau. Roedd y rhain yn cynnwys prosesau archebu, gwirio stoc a gwirio tymheredd yr oergell, ac ymwybyddiaeth o'r camau gweithredu i'w cymryd pe bai methiant mecanyddol. Fodd bynnag, nodwyd bod gormod o stoc yn un o'r oergelloedd clinigol a oedd yn atal aer oer rhag cylchdroi yn effeithiol. Tynnwyd sylw Rheolwr y Practis at hyn a esboniodd fod clinig brechu rhag fflw'r gaeaf yn cael ei gynnal y diwrnod canlynol. Cafodd y mater hwn ei ddatrys yn ystod yr arolygiad.

Er bod rhywfaint o dystiolaeth i ddangos bod cyffuriau a reolir yn cael eu rheoli, rhaid i'r practis ystyried a yw'n cydymffurfio â'r holl reoliadau. Gan gynnwys defnyddio cofrestr cyffuriau a reolir, ymhlith pethau eraill. Byddem yn argymhell y dylai'r practis ofyn am gyngor gan y Bwrdd Iechyd Lleol yn hyn o beth.

Rhaid i'r practis adolygu ei drefniadau llywodraethu ar gyfer rheoli cyffuriau a reolir ar unwaith.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith i reoli unrhyw bryderon diogelu. Roeddent yn gysylltiedig â Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan, ac roedd y staff yn ymwybodol o'r rhain.

Roedd arweinydd diogelu enwebedig yn y practis, ac roedd y staff yn cael cynnig hyfforddiant ac yn cwblhau hyfforddiant yn unol â'u rolau a'u cyfrifoldebau. Fodd bynnag, dywedodd dau unigolyn a ymatebodd i'n harolwg staff nad oeddent yn gwybod pwy oedd arweinydd diogelu'r practis, na sut i roi gwybod am unrhyw bryderon diogelu.

Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y practis yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau diogelu, eu bod yn gwybod pwy yw'r arweinydd diogelu a bod hyfforddiant gloywi ychwanegol yn cael ei ddarparu lle y bo'n ofynnol.

Roedd tystiolaeth i ddangos bod diogelu yn cael ei drafod fel rhan o gyfarfodydd y tîm amlldisgyblaethol a oedd yn cael eu cynnal bob pythefnos. Er bod diweddariadau perthnasol yn cael eu nodi ar gofnodion y cleifion, rydym yn argymhell y dylid cofnodi cyfres o gofnodion manwl a phriodol er mwyn helpu i oruchwylio a nodi themâu, ac y cânt eu rhannu â'r staff fel y bo'n berthnasol.

Dylai'r practis sicrhau y caiff cofnodion o gyfarfodydd y tîm amlldisgyblaethol eu cadw er mwyn helpu i oruchwylio a nodi themâu ac y cânt eu rhannu â'r staff fel y bo'n berthnasol.

Roedd prosesau ar waith i fonitro cleifion a oedd yn mynd i'r Adran Achosion Brys, gan gynnwys unigolion sy'n mynd yno'n rheolaidd. Roedd proses ar waith i fonitro achosion lle nad oedd rhieni neu ofalwyr wedi mynd â phlant i apwyntiadau gofal eilaidd ac i ymdrin â'r achosion hynny.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Nodwyd gennym fod y dyfeisiau a'r cyfarpar meddygol yn gweithio'n effeithiol. Roedd tystiolaeth bod cyfarpar yn cael ei galibradu a bod cyfarpar newydd yn cael ei drefnu pe nodwyd cyfarpar diffygiol. Roedd eitemau untro yn cael eu defnyddio lle bynnag y bo'n bosibl.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Ar y cyfan, gwelsom fod prosesau boddhaol ar waith er mwyn helpu i ddarparu triniaethau a gofal effeithiol i'r cleifion. Roedd hyn yn cynnwys prosesau i rannu diweddariadau clinigol, gwersi i'w dysgu, a chanllawiau newydd. Roedd y prosesau

hyn wedi'u hategu gan fentrau gwella ansawdd, cyfarfodydd amlddisgyblaethol a threfniadau gweithio clwstwr.

Roedd atgyfeiriadau yn cael eu rheoli'n briodol, gan gynnwys atgyfeiriadau safonol ac atgyfeiriadau brys, fel achosion lle yr amheuwyd canser. Roedd cynlluniau wrth gefn ar waith i gyflenwi ar gyfer absenoldebau staff er mwyn hwyluso atgyfeiriadau brys yn ôl yr angen.

Roedd y prosesau ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau drwy Datix yn glir ac roedd staff y practis yn eu deall.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom adolygu 10 cofnod cleifion electronig. Roedd cynnwys y cofnodion o ansawdd boddhaol ar y cyfan. Roedd hyn yn cynnwys eglurder a'r rhesymau dros benderfyniadau a wnaed mewn perthynas â gofal cleifion. Roedd y rhan fwyaf o gofnodion yn gyfredol ac yn gydamserol hefyd. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nifer bach o feysydd i'w cryfhau mewn perthynas â chadw cofnodion clinigol. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Anghysondeb o ran eglurder ac ansawdd y cofnodion
- Achosion lle nad oedd cydsyniad a'r cynnig o hebryngwr yn ystod archwiliadau personol wedi'u cofnodi
- Achosion lle nad oedd codau Read bob amser yn cael eu defnyddio'n gyson nac yn effeithiol
- Nid oedd marciau na baneri bob amser i'w gweld ar gyfer rhai o'r cleifion a, lle y bo'n berthnasol, aelodau eraill o'r teulu. E.e. ar gyfer oedolion agored i niwed neu blant.

Dylai'r practis gynnal archwiliad cadw cofnodion ac ystyried cynnal archwiliadau parhaus i sicrhau y caiff y broses o gadw cofnodion ei hatgyfnerthu a'i chynnal.

Gwelwyd bod cofnodion meddygol pob un o'r cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel er mwyn atal achosion o fynediad heb awdurdod

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan staff

Oherwydd y gyfradd ymateb isel, nid yw'r holl ddata o'r arolwg staff wedi'u cynnwys yn yr adran hon o'r adroddiad.

Roedd y staff yn fodlon ar ansawdd y gofal roeddent yn ei ddarparu i'r cleifion, ac roedd pob un ohonynt yn cytuno mai gofalu am y cleifion oedd prif flaenoriaeth y practis ac y byddent yn fodlon ar safon y gofal a ddarperir pe bai hynny i'w ffrindiau neu eu teulu.

Roedd dau aelod o'r staff o'r farn bod angen mwy o staff er mwyn iddynt allu gwneud eu gwaith yn iawn, a bod eu swydd yn effeithio ar eu hiechyd.

Roedd pob aelod o'r staff yn teimlo eu bod wedi cael hyfforddiant priodol i ymgymryd â'u rôl, oni bai am hyfforddiant diogelu fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad. Cadarnhaodd pob un ohonynt eu bod wedi cael arfarniad yn ystod y 12 mis diwethaf.

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Roedd strwythur rheoli ac arwain clir ar waith ac roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau. Roedd yn ymddangos bod aelodau tîm y practis yn gweithio mewn modd cydlynol ac roeddent yn canmol y dull drws agored a oedd ar waith ymhlith eu cydweithwyr.

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod cyfarfodydd tîm a chyfarfodydd practis yn cael eu cynnal yn rheolaidd, a bod dulliau gwahanol yn cael eu defnyddio i'r staff rannu gohebiaeth gyffredinol a gohebiaeth frys.

Roedd nifer o bolisiau a gweithdrefnau ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y practis yn cael ei redeg yn effeithiol.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Roedd proses sefydlu a chynefino ar waith i aelodau newydd o staff. Roedd polisi recriwtio yn ategu hyn.

Roedd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael eu cynnal ar gyfer y staff yn unol â'u rôl yn y practis.

Roedd y staff wedi cwblhau'r lefelau gofynnol o hyfforddiant gorfodol yn unol â'u rolau a'u cyfrifoldebau. Cadarnhaodd y practis fod amser yn cael ei ddyrannu i'r staff gwblhau gwaith gweinyddol i'w galluogi i gwblhau hyfforddiant yn ystod oriau gwaith.

Gwelsom dystiolaeth o weithgarwch arfarnu, a gwelsom enghreifftiau o hyfforddiant a chyfluoedd datblygu yn cael eu darparu yn unol ag anghenion datblygu'r staff.

Roedd y staff wedi cwblhau'r lefelau gofynnol o hyfforddiant gorfodol yn unol â'u rolau a'u cyfrifoldebau

Roedd proses resymegol ar waith i sicrhau bod y staff yn cael brechiadau Hepatitis B lle nodwyd bod angen hynny, gyda chymorth cydweithwyr lechyd Galwedigaethol yn y bwrdd iechyd lleol.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd y cleifion yn gallu rhoi adborth mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys wyneb yn wyneb, yn ysgrifenedig neu drwy ddull cwyno ffurfiol. Roedd hyn yn cyd-fynd â phroses Gweithio i Wella GIG Cymru.

Gwnaethom edrych ar sampl o gwynion ffurfiol. Roedd y rhain wedi cael eu cydnabod o fewn y cyfnod priodol ac roedd y practis wedi ymateb iddynt mewn ffordd gynhwysfawr. Cymerodd y practis fwy o amser i ymateb i rai cwynion na'r disgwyl, ond roedd hyn oherwydd ffactorau allanol a oedd yn ymwneud â gwasanaethau cyngori cyfreithiol.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod y practis yn gweithio gyda'r gymuned wledig leol i ymgysylltu â chleifion, yn enwedig grwpiau cleifion hŷn ac agored i niwed. Roedd enghraifft gadarnhaol yn cynnwys cynnal cysylltiadau â'r Eglwys leol er mwyn cyfleu negeseuon pwysig.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Roedd system briodol ar waith i sicrhau bod data a gwybodaeth am gleifion, atgyfeiriadau a cheisiadau yn cael eu casglu, eu rhannu a'u cofnodi'n effeithiol. Roedd hyn yn cynnwys casglu, cofnodi a monitro dangosyddion perfformiad.

Lle y bo'n briodol, roedd cytundebau rhannu ar waith â chyrff allanol i sicrhau cyfrinachedd a diogelwch gwybodaeth cleifion.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelwyd sawl enghraifft o weithgareddau Gwella Ansawdd. Er enghraifft, ymateb i adborth gan gleifion a gwneud newidiadau yn sgil yr adborth hwnnw. Roedd hyn yn cynnwys canlyniadau cwynion a digwyddiadau difrifol, a oedd yn cael eu trafod a'u cofnodi fel rhan o gyfarfodydd practis â'r staff perthnasol. Roedd archwiliadau clinigol, fel archwiliadau o bresgripsiynau, yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Roedd canlyniadau'r archwiliadau yn cael eu rhannu â'r timau clinigol yn ôl yr angen.

Roedd yn gadarnhaol gweld enghreifftiau o raglenni gwella eraill, a oedd yn cynnwys y wobwr efydd am ymrwymiad y practis i gefnogi gofalwyr yn y gymuned.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Roedd cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol yn cael eu cynnal yn rheolaidd ag amrywiaeth o ymarferwyr iechyd a gofal. Mae hyn yn cynnwys ymarferwyr eiddilwch, nyrsys ardal, ymarferwyr iechyd meddwl ac ymarferwyr gwasanaethau cymdeithasol. Er ein bod wedi cadarnhau bod nodiadau perthnasol yn cael eu gwneud yn nodiadau'r cleifion, fel y nodwyd eisoes, rydym yn argymhell y dylid cadw cofnodion o'r cyfarfodydd er mwyn helpu i adolygu a nodi unrhyw themâu.

Nodwyd bod y trefniadau clwstwr yn gweithio'n dda, bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rheolaidd â lefelau presenoldeb da a bod aelodau'r clwstwr wedi cytuno ar brosiectau newydd i'w rhoi ar waith.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Gwelwyd bod gormod o stoc yn yr oergelloedd clinigol	Gallai hyn effeithio ar effeithiolrwydd y feddyginiaeth / brechlynnau	Codwyd hyn gyda thîm y practis (Rheolwr y Practis a'r Nyrs)	Cafodd y stoc ei symud i oergell arall a defnyddiwyd cryn dipyn o'r stoc y diwrnod canlynol.

Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Meddygfa Coach and Horses

Dyddiad yr arolygiad: 2 Hydref 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Nid oes unrhyw welliannau yr oedd angen eu gwneud ar unwaith i'w nodi					
2.					
3.					
4.					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Meddygfa Coach and Horses

Dyddiad yr arolygiad: 2 Hydref 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Rhaid i'r practis sicrhau y caiff cydsyniad ar lafar i archwiliadau personol a'r cynnig o hebryngwr bob amser eu cofnodi yng nghofnodion meddygol y cleifion yn unol â chanllawiau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol.	Bydd botwm macro yn cael ei osod a fydd yn cynnwys opsiwn 'Z182100 Chaperone offered' ar y sgrin glinigol ar Vision. Mae arwydd hebryngwr i'w weld ym mhob ystafell uwchben y gwely archwilio ac mae arwydd hefyd wedi'i arddangos yn yr ystafell aros.	Pob clinigydd	Wedi'i roi ar waith eisoes
2.	Dylai'r practis sicrhau y caiff anghenion iaith a chyfathrebu eu cofnodi yng nghofnodion meddygol y cleifion fel mater o drefn er mwyn sicrhau bod	Gofynnir am anghenion iaith/cyfathrebu ar yr holiadur a roddir i bob claf newydd. Bydd neges destun yn cael ei hanfon yn gofyn i'r cleifion ymateb gan nodi eu dewis iaith. Bydd manylion Language	Liz Murcott Rheolwr y Practis a Maisie Howells Dirprwy Reolwr y Practis	Chwe wythnos

		anghenion yn cael eu diwallu mewn modd ymatebol, gan ddefnyddio Language Line pan fo angen.	Line hefyd ar gael ym mhob ystafell glinigol.		
3.		Rhaid i'r practis sicrhau bod y clychau galw i'w defnyddio mewn argyfwng yn gweithio ym mhob ystafell ymgynghori.	Byddwn yn cael dyfynbris gan gwmni trydydd parti, ond mae cloch alw i'w defnyddio mewn argyfwng ar gael ar y cyfrifiadur ym mhob ystafell glinigol yn ychwanegol at y cloch alw i'w defnyddio â llaw.	Liz Murcott, Rheolwr y Practis	Chwe mis
4.		Rhaid i'r practis sicrhau bod archwiliadau atal a rheoli heintiau yn cael eu cynnal bob blwyddyn, gan lunio cynllun gweithredu er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodwyd.	Caiff archwiliad blyneddol ei gyflwyno a'i gynnwys fel rhan o'r polisi atal a rheoli heintiau.	Ystafell drin	Chwe mis
5.		Rhaid i'r practis adolygu ei drefniadau llywodraethu ar gyfer rheoli cyffuriau a reolir ar unwaith.	Rydym wedi adolygu'r trefniadau llywodraethu mewn perthynas â chyffuriau a reolir. Nid ydym yn cadw unrhyw gyffuriau atodlen 1-3 ar y safle. Fodd bynnag, byddwn yn cynnal archwiliad manwl o'r broses o ymdrin â phresgripsiynau ar gyfer yr holl gyffuriau a reolir.	Meddygon Teulu/Fferyllydd Clwstwr	12 mis

6.	Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y practis yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau diogelu, eu bod yn gwybod pwy yw'r arweinydd diogelu a bod hyfforddiant gloywi ychwanegol yn cael ei ddarparu lle y bo'n ofynnol.	Caiff y polisi diogelu ei rannu â'r staff a bydd posteri yn cael eu harddangos i atgoffa'r staff o'r manylion cyswllt ac ati. Caiff yr hyfforddiant gorfodol ar ddiogelu ei adolygu.	Liz Murcott, Rheolwr y Practis	Un mis
7.	Dylai'r practis sicrhau y caiff cofnodion o gyfarfodydd y tîm amlldisgyblaethol eu cadw er mwyn helpu i oruchwyllo a nodi themâu ac y cânt eu rhannu â'r staff fel y bo'n berthnasol.	Mae arweinydd y tîm amlldisgyblaethol yn nodi manylion yn syth ar nodiadau'r claf yn ystod y cyfarfod. Mae'r practis yn cydnabod bod ganddo ran i'w chwarae wrth nodi themâu o waith y tîm amlldisgyblaethol - caiff y rhain eu rhannu yn ein cyfarfod ardal leol er mwyn archwilio arferion safoni'r clwstwr cyfan.	Pob Meddyg Teulu/ Rheolwr y Practis	Parhaus
8.	Dylai'r practis gynnal archwiliad cadw cofnodion ac ystyried cynnal archwiliadau parhaus i sicrhau y caiff y broses o gadw cofnodion ei hatgyfnerthu a'i chynnal.	Mae'r practis yn paratoi i newid i EMIS. Byddwn yn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r macros/codau Read ar y dudalen flaen i Feddygon Teulu/Nyrsys. Bydd y Cofrestryddion yn cwblhau prosiect Gwella Ansawdd ar gadw cofnodion. Byddwn yn	Pob aelod o'r staff clinigol/Rheolwr y Practis	12 mis

		ystyried y dangosfwrdd galw a chapasiti		
--	--	---	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): L Murcott

Swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 26 Tachwedd 2024